# Papur y Bwrdd

20 Medi

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | **Ystyriaeth Atodol: Adolygiad o'r defnydd o arfau tanio ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru** |
| **Cyfeirnod y papur:** | **NRW B B 43.18** |
| **Noddwyd y papur gan:** | **Ceri Davies** |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | **Chris Tucker a Michelle van-Velzen** |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Penderfyniad** |
| **Argymhelliad:** | Gofynnir i'r Bwrdd roi cyfarwyddiadau o ran gweithredu cais y Gweinidog fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi'r gorau i brydlesu hawliau saethu ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Sylwer – mae'n bosib nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc | Sut mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br><br>**Edrych ar y tymor hir:**<br><br>**Gweithredu mewn ffordd integredig:**<br><br>**Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth:**<br><br>**Gweithio mewn ffordd gydweithredol:**<br><br>**Atal problemau rhag codi:** |

**Mater**

1. Gwnaeth y Bwrdd ofyn i'r Tîm Adolygu Saethu asesu effeithiau a goblygiadau gweithredu cais gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd i ystyried rhoi’r gorau i brydlesu hawliau saethu ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Mae'r papur hwn yn asesu'r goblygiadau ac yn gwneud argymhellion ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Gofynnir i'r Bwrdd ystyried yr argymhellion hyn a chytuno ar sefyllfa.

**Cefndir**

2. Cytunwyd ar yr holl argymhellion a'r datganiad sefyllfa a gynigiwyd gan yr adolygiad o ran y defnydd o arfau tanio ar y tir yr ydym yn ei reoli yn ystod cyfarfod mis Gorffennaf. Mae'r datganiad sefyllfa yn nodi y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i ystyried prydlesu'r hawliau ar gyfer saethu ffesantod, hela adar a gweithgareddau eraill sy'n cynnwys arfau tanio fesul achos ac yn amodol ar rai amodau penodol, gan gynnwys bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn adennill y costau sydd ynghlwm â'r gwaith o gytuno, rheoli a monitro'r brydles.

3. Yn yr un cyfarfod, gwnaeth y Bwrdd hefyd ystyried sefyllfa Llywodraeth Cymru, a gafodd ei rhannu mewn llythyr oddi wrth y Gweinidog dros yr Amgylchedd at Clare Pillman ar 9 Gorffennaf. Gofynnwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried peidio ag adnewyddu prydlesau ar gyfer saethu ffesantod na chadw adar mewn corlannau ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Roedd llythyr y Gweinidog yn cydnabod hela adar fel ffordd o reoli safle, ond codwyd pryderon ynddo ynghylch saethu rhywogaethau a warchodir. Gwnaeth hi ofyn i adaregwyr Cyfoeth Naturiol Cymru archwilio effaith hela adar ar rywogaethau mwy prin o adar.

4. Er gwaethaf cynnwys y papur hwn, mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu ac mae'n cael ei roi ar waith i sicrhau bod y datganiad sefyllfa a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2018 yn cael ei weithredu. Mae gwaith hyd yn hyn wedi cynnwys creu cynllun drafft o gyfarwyddiadau desg newydd ynghylch egwyddorion rheoli bywyd gwyllt yn foesegol, nodi arweinydd ar gyfer grŵp cynghori ar fwledi plwm, a rhoi'r dasg i arbenigwyr Cyfoeth Naturiol Cymru o adolygu'r hela adar sy'n digwydd ar safleoedd yr ydym yn eu rheoli.

**Asesiad**

4. Gwnaeth y Tîm Adolygu gyfarfod â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru er mwyn ceisio cael eglurdeb ynghylch y materion a godwyd yn llythyr y Gweinidog.

5. O ran y papur a gyflwynwyd i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Gorffennaf, cadarnhaodd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru fod y Gweinidog wedi cytuno gyda'r ddau argymhelliad cyntaf a'r sefyllfa ynghylch bwledi plwm, ond mai magu adar ar gyfer eu saethu sy'n achosi problem - felly mae Llywodraeth Cymru yn gofyn inni roi ystyriaeth i’w sefyllfa mewn perthynas â'r elfen yn y trydydd argymhelliad sy'n ymwneud â saethu ffesantod. Cadarnhawyd hefyd fod y pryderon ynghylch effeithiau hela adar ar rywogaethau mwy prin yn gysylltiedig â rhywogaethau sydd ar y rhestr goch neu oren.

6. Fel y gofynnwyd, mae effeithiau a goblygiadau sefyllfa'r Gweinidog o ran y tair prydles bresennol ar gyfer saethu ffesantod ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru wedi cael eu hasesu. Er bod telerau'r prydlesau yn cynnwys hawliau saethu, dim ond ar dir agored

wrth ymyl Ystad Goetir Llywodraeth Cymru y mae saethu ffesantod yn digwydd ar hyn o bryd. Mae'r tair prydles bresennol yn caniatáu mynediad i saethwyr i symud adar o'u gorchudd gyda pheth corlannu a bwydo adar mewn coetir a rhai gweithgareddau cysylltiedig i reoli cynefinoedd ac ysglyfaethwyr. Nid oes unrhyw adar yn cael eu bridio ar hyn o bryd ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

7. Adolygwyd pob prydles bob blwyddyn hyd nes gwneir canlyniad yr adolygiad, a bydd y cyfan yn dod i ben ym mis Mawrth 2019. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru ddewis peidio ag adnewyddu'r prydlesau heb gosb, er y bydd goblygiadau ariannol o ran colli ychydig o incwm, a gall fod niwed i enw da'r sefydliad.

8. Mae'r rhannau bach o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru sydd ynghlwm yn rhan o ardaloedd saethu llawer mwy eang. Mae'n debygol iawn y bydd adar sy'n cael eu magu a'u rhyddhau ar dir gerllaw yn parhau i ddefnyddio'r coetiroedd a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Dyma rywbeth nad oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru lawer o reolaeth drosto. Mae hawliau saethu fel rhan o brydles yn fater ar wahân i roi caniatâd ar gyfer cael mynediad at Ystad Goetir Llywodraeth Cymru i helpu i hwyluso gweithgareddau saethu ar dir gerllaw nad yw'n cael ei reoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd saethwyr yn parhau i wneud cais i symud ffesantod o orchudd coetir i fannau saethu gerllaw. Oherwydd bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru bolisi mynediad sy'n rhoi'r rhyddid i grwydro, gallai staff saethu fynd i Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ar droed er diben gyrru adar allan i'r tir saethu gerllaw. Fodd bynnag, byddai o fudd i Cyfoeth Naturiol Cymru gael rhywfaint o reolaeth a gwybodaeth ynghylch amserau gweithgareddau o'r fath er mwyn rheoli ein buddiannau ein hunain ar y tir, felly gellid rheoli hyn drwy ddefnyddio trwydded mynediad.

9. Rydym ar ddeall bod Llywodraeth Cymru yn gyfforddus gyda'r syniad o ganiatáu i staff saethu gerdded drwy Ystad Goetir Llywodraeth Cymru i symud ffesantod o'r gorchudd coetir.

10. O ran y safle lle ceir tair corlan ryddhau ar hyn o bryd, mae deiliad y brydles wedi dweud os nad oes ganddo fynediad at Ystad Goetir Llywodraeth Cymru y byddai'n rhaid iddo roi terfyn ar ei fusnes. Ar hyn o bryd, mae'r saethu yn cefnogi swyddi amser llawn a rhan-amser yn yr ardal leol. Gallai fod yn bosib i ddeiliad y brydles ddod o hyd i gorlannau a rhyddhau adar ar safleoedd eraill, ond nid oes digon o amser wedi bod i archwilio'r opsiwn hwn. Gallai ddod â'r brydles hon i ben arwain at gŵyn yn erbyn Cyfoeth Naturiol Cymru, er ei bod yn bosibl y gellid lliniaru'r risg hon drwy roi estyniad tymor byr i ddeiliad y brydles er mwyn iddo wneud trefniadau eraill.

11. Mae pob un o'r tair prydles bresennol yn caniatáu i rywogaethau plâu gael eu rheoli gan ddefnyddio arfau tanio. Hyd yn oed pe bai'r prydlesau'n dod i ben, byddai dal angen i Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried ceisiadau gan berchnogion tir gerllaw i reoli rhywogaethau plâu gan ddefnyddio arfau tanio, ar sail y datganiad sefyllfa a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf (Argymhelliad 2).Nid yw hwn felly'n fater sy'n unigryw ar gyfer saethu ffesantod.

12. O ran hela adar, roedd pryder y Gweinidog yn ymwneud â saethu rhywogaethau a warchodir o bosibl, yn hytrach na saethu adar hela ynddo'i hun fel ffordd o reoli rhywogaethau. Mae eglurhad gan y Gweinidog fod hyn yn ymwneud ag adar sydd ar y rhestr goch ac oren yn ddefnyddiol, ond mae angen trafodaethau pellach gyda Llywodraeth Cymru gan nad yw'n eglur o hyd p'un a yw ei phryder yn ymwneud yn unig ag effeithiau uniongyrchol ar adar sy'n cael eu saethu, neu p'un a yw'n cynnwys

effeithiau amharu ehangach. Byddai'r olaf yn ddarn sylweddol o waith y byddai angen clustnodi cyllid ac adnoddau ar ei gyfer. Ar hyn o bryd, mae gwaith wedi dechrau i edrych ar y poblogaethau ar safleoedd dynodedig yn erbyn nifer yr adar sy’n cael eu lladd dros gyfnod penodol o amser, gyda'r nod o gyflwyno'r canfyddiadau i'r Bwrdd Bioamrywiaeth ac Ecosystemau Gwydnwch erbyn diwedd y flwyddyn. Ar yr adeg hon, gellir asesu a oes angen gwneud rhagor o waith.

## Argymhellion

13. Ar sail yr asesiad uchod o effeithiau a goblygiadau sefyllfa'r Gweinidog, mae'r argymhellion canlynol yn cael eu gwneud.

**Argymhelliad 1:** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi’r gorau i brydlesu **hawliau saethu** [ffesantod] ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru (a fydd yn dod i rym ar 1 Mawrth 2019 pan fo'r prydlesau presennol yn dod i ben). Pan fo deiliad prydles presennol yn nodi effaith sylweddol ar ei fusnes, neu pan fydd yn wynebu costau y tu hwnt i gyfnod y brydles sy'n weddill, dylai Cyfoeth Naturiol Cymru gynnig estyniad o flwyddyn i'r brydles er mwyn caniatáu i ddeiliad y brydles wneud newidiadau. Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw weithgareddau bridio, magu, dal neu saethu ffesantod yn cael eu cynnal ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 2:** Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn caniatáu, trwy roi caniatadau, y gweithgaredd o yrru adar o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â gweithgaredd saethu ar dir trydydd parti gerllaw.

**Argymhelliad 3:** Caiff y prydlesu o hawliau i saethu adar hela ei adolygu pan fydd yr effeithiau posibl ar rywogaethau a warchodir yn hysbys (h.y. hyd nes y bydd adaregwyr Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud gwaith ar effeithiau hela adar ar rywogaethau adar prin sydd ar y rhestr goch ac oren).

**Argymhelliad 4:** Yn unol â datganiad sefyllfa Cyfoeth Naturiol Cymru (a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2018), bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i ystyried ceisiadau am ganiatâd i reoli rhywogaethau gwyllt sy’n effeithio ar amcanion rheoli tir cyfagos a hynny trwy ddefnyddio arfau tanio ar y tir a reolir gennym.

## Risgiau allweddol

| Risg | Mesur lliniaru |
|---|---|
| Bod deiliaid prydlesau presennol yn gallu profi bod ein penderfyniadau yn niweidiol i'w busnes | • Caniatáu estyniad o flwyddyn er mwyn gwneud newidiadau i'w busnes |
| Risg i enw da am nad yw'r penderfyniad yn seiliedig ar dystiolaeth | • Ildio i’r farn a fynegir yng ngohebiaeth y Gweinidog at Clare Pillman, a'r ffaith fod y |

| | |
|---|---|
| neu'n gyson â chanlyniad adolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru o'r defnydd o arfau tanio | Gweinidogion yn berchen ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ar ran y genedl a'u bod yn gallu cyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru o ran ei rheoli |
| Risg i enw da fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn hwyluso gweithgareddau saethu ffesantod drwy ganiatáu i adar gael eu gyrru o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru a thrwy roi caniatâd i weithgareddau rheoli plâu | • Ni allwn reoli gweithgareddau saethu ar dir trydydd partïon ac ni allwn atal ffesantod rhag mynd ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru o'r tir hwn<br>• Yn unol â'r datganiad sefyllfa a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2018, ni fyddwn bellach yn weithgar wrth hyrwyddo gweithgareddau saethu masnachol<br>• Mae'r gwaith o reoli plâu yn gyson â Deddf Hela 2004, ac mae'n ofynnol i ni ystyried ceisiadau |

**Goblygiadau ariannol**

14. Colli incwm o brydlesu hawliau saethu, sef £4,500 y flwyddyn. Dylid adennill y costau ar gyfer prosesu a rheoli caniatadau drwy gost caniatâd. Ceir costau sylweddol ynghlwm â'r gwaith o brosesu prydlesau ar gyfer hela adar, a bydd adennill costau drwy gynllun codi tâl newydd yn anodd ei weithredu a'i reoli.

**Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

15. Cwblhawyd ymarfer sgrinio ar gyfer y papur a'r datganiad sefyllfa a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2018. Daethpwyd i'r casgliad, oherwydd nad yw ein hargymhellion yn newid gwasanaeth rydym yn ei ddarparu ar hyn o bryd yn sylweddol, nad oedd angen asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb.

16. Oherwydd bod y papur hwn yn ymwneud â newid bach i'n sefyllfa, nid oes ail ymarfer sgrinio wedi'i gwblhau.

Tîm Rheoli Tir yn Gynaliadwy
21 Awst 2018